# CRYNODEB CYFARFOD

## Cyngor Cymuned Llanycil
## Cyfarfod Nos Fawrth, Mawrth 11eg 2025 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Parc.

Presennol: Huw Charles (cadeirydd), Arwel Davies, Geraint Jones, Gwynfryn Williams, Rhys Richards, Cyng. Elwyn Edwards, a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Euros Puw a Rhys Jones.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Tachwedd 19eg 2024) - **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant **- Nodwyd y buddiant perthnasol gyda'r cais cynllunio.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

### iv) Gohebiaeth

a) Cyngor Gwynedd.
i) Cyfarfod Diweddaru Cynllun Ardal Ni **– cafwyd adroddiad gan Arwel Davies o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod.**
ii) Arolwg Gwynedd 2025.
iii) Ymghynhoriad cyhoeddus – Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau

b) Heddlu Gogledd Cymru.
i) Gwahoddiad i gyfarfod yn Orsaf Y Bala - **cytunodd Rhys Richards i fynychu'r cyfarfod.**
ii) Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

c) Parc Cenedlaethol Eryri.
i) Recriwtio Wardeniaid Gwirfoddol.

ch)Amrywiol.
i) Mabon ap Gwynfor AS – Diogelwch yr A494.
ii) Siân Gwenllian AS (Arfon.) - sefydlu Ysgol Ddeintyddiaeth ym Mangor - c**ytunwyd yn unfrydol i yrru gair o gefnogaeth.**
iii) Comisiwn Ffiniau i Gymru - arolwg o etholaethau'r Senedd.
iv) Cais am fin halen – **yn dilyn trafodaeth cytunwyd nad oedd yn bosib symud un o'r biniau halen presennol i'r lleoliad newydd.**
v) Uchelgais Gogledd Cymru – Ymgynghoriad trafnidiaeth.

### v) Ceisiadau Cynllunio.

i) NP5/72/62B – Estyniad i'r cefn ynghyd a man newidiadau. Canolfan Cymuned, Parc.
ii) NP5/72/241B - Estyniad a newidiadau i'r tŷ ac ymestyn y cwrtil preswyl.1 Maes Gwyn, Rhyduchaf.
**(Arwel Davies yn datgan buddiant ac yn gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth).**

**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i'r ceisiadau uchod.**

**vi) Materion Ariannol**
a) Penodi Archwiliwr Mewnol - **Cytunwyd i benodi uned archwilio fewnol Cyngor Gwynedd.**

b) Adroddiad Ariannol i ddiwedd Rhagfyr (monitro derbyniadau a thaliadau) - **Cymeradwywyd.**

c) Llywodraeth Cymru – Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2025-26 - **Cytunwyd i ddilyn y canllawiau yn yr adroddiad.**

ch) Taliadau.
**Cytunwyd i dalu –**
**Cyflog a chostau'r Clerc (Ionawr i Fawrth), CTHEM (TWE), Un Llais Cymru (Tal Aelodaeth), Neuadd Maesywaen (Llogi), Neuadd Parc (Llogi) a Cwmni Pum Plwy Penllyn (llwybrau).**

**Cytunwyd hefyd i gymeradwyo i dalu anfoneb Archwilio Cymru (archwiliad allanol) pan bydd y clerc yn derbyn yr anfoneb.**

<u>d) Ceisiadau ariannol.</u>

**Cytunwyd i gyfrannau:-**

| | |
|---|---|
| **1) Neuadd Y Parc** | **£150** |
| **2) Neuadd Maesywaen** | **£150** |
| **3) Cylch Meithrin Garn Bach Tryweryn** | **£150** |
| **4) Ysgol Bro Tryweryn** | **£150** |
| **5) Cronfa Ysgol Godre'r Berwyn** | **£75** |
| **6) Sioe Ardal Maesywaen** | **£50** |
| **7) CFFI Meirionnydd** | **£125** |
| **8) Eisteddfod Urdd Cylch Meirionnydd** | **£25** |
| **9) Cantref** | **£25** |
| **10) Ambiwlans Awyr Cymru** | **£50** |
| **11) Tŷ'r Eos** | **£50** |
| **12) Tŷ Gobaith** | **£25** |
| **13) Macmillan** | **£25** |
| **14) Cwmni Pum Plwy Penllyn – Y Cyfnod** | **£50** |
| **15) Llen y Llannau** | **£25** |
| **16) Theatr Derek Williams** | **£50** |
| **17) Marie Curie** | **£25** |

**<u>vii) Materion lleol.</u>**

**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH MAI 13eg YN NEUADD MAESYWAEN.**